

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud ag ychwanegu effeithiau analog neu ddigidol i ddeunydd sain. Mae'n ymwneud â dynameg ynghyd ag effeithiau a gall gynnwys cywasgu, cyfyngu, gwahardd sain, oedi, datseinedd, oedi ar gyflymder gwahanol, graddoli, sbectrol, cywiro amser a thraw, graddiant, corws a phrosesu signalau digidol (DSP).

Mae'n ymwneud â phenderfynu pryd i ddefnyddio effeithiau, gosod caledwedd a meddalwedd, rheoli ac addasu proseswyr, gwirio ansawdd a chadw gwaith wedi'i gwblhau.

Mae'r safon hon ar gyfer peirianwyr a rhaglenwyr recordio sy'n ychwanegu effeithiau analog a digidol i ddeunydd sain.

## Meini prawf perfformiad

### *Rhaid i chi allu:*

1. gwerthuso pryd bydd defnyddio effeithiau'n gwella allbynnau creadigol
2. dewis proseswyr fydd yn cyflawni'r dynamig neu effaith ddymunol
3. gosod a chysylltu caledwedd a meddalwedd yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
4. addasu paramedrau o ran y dymameg neu'r unedau effeithiau er mwyn bodloni'r gofynion
5. rheoli proseswyr i gyflawni'r deilliannau dymunol
6. gweithredu proseswyr yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
- 7.

asesu ansawdd effeithiau yn erbyn y gofynion ansawdd dymunol

1. addasu gosodiadau proseswyr nes eich bod yn cyflawni'r deilliannau dymunol
2. cadw deunydd wedi'i gwblhau yn unol â'r gweithdrefnau cyfundrefnol
3. defnyddio cyfryngau storio priodol er mwyn cadw copi wrth gefn o ffeiliau a'u symud
4. gweithio yn unol â'r gofynion iechyd a diogelwch, o ran gwrando'n ddiogel, bob amser

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. dynameg ac effeithiau cyffredin fel cywasgydd, gwaharddwr sain, cyfyngydd, oedi, datseinedd, corws, oedi ar gyflymder gwahanol, graddoli, sbectrol, cywiro amser a thraw a phrosesu signalau digidol (DSP)
2. prif agweddau, defnyddiau a gwahaniaethau creadigol pob dynamig ac effaith
- 3.

y derminoleg sy'n gysylltiedig â phob system dynamig ac effaith

1. buddion defnyddio dynameg ac effeithiau yn ystod y broses recordio
2. mathau o brosesau dynameg ac unedau effeithiau a'u paramedrau a rheolyddion
3. sut i gysylltu, cyfeirio a chyweirio prosesu dynameg ac unedau effeithiau drwy gymysgu trawfyrddau a cheblau wedi'u cymeradwyo gan y diwydiant

Ychwanegu effeithiau analog a digidol i ddeunydd sain

<b>Datblygwyd gan</b>	ScreenSkills
<b>Dyddiad cymeradwyo</b>	30 Maw 2020
<b>Dyddiad Adolygu Dangosol</b>	31 Maw 2024
<b>Dilysrwydd</b>	Ar hyn o bryd
<b>Statws</b>	Gwreiddiol
<b>Sefydliad cychwynnol</b>	Creative and Cultural Skills
<b>RCU gwreiddiol</b>	CCSMT18
<b>Galwedigaethau perthnasol</b>	Peirianwyr Recordio, Cynhyrchwyr Recordio, Peirianwyr Cymysgu, Peirianwyr Cynorthwyol, Cyfansoddwyr Cerddoriaeth Ffilm, Cyfansoddwyr, Cynorthwydd Personol lleoliadau / manau perfformio
<b>Cyfes/Set</b>	Recordio Sain a Thechnoleg Cerddoriaeth
<b>Geiriau Allweddol</b>	Analog; Digidol; Caledwedd; Sain; Cerddoriaeth; Deunydd Sain; Recordio Sain; Technoleg Cerddoriaeth